

Misoedd y Flwyddyn

Meira Shakespear

Cwestiwn: Sawl MIS sydd mewn BLWYDDYN? **Ateb:** DEUDEG / un-deg-dau (12)

Mae'r flwyddyn yn troi fel olwyn
mae'r Nadolig yn dod yn ei dro a'r haf yn dilyn chwe mis wedyn.


Dyma enwau misoedd y flwyddyn yn eu tro.

- | | | | |
|-------------|------------|---------------|--------------|
| 1. Ionawr | 4. Ebrill | 7. Gorffennaf | 10. Hydref |
| 2. Chwefror | 5. Mai | 8. Awst | 11. Tachwedd |
| 3. Mawrth | 6. Mehefin | 9. Medi | 12. Rhagfyr |

Mae pob mis yn wahanol. Mae'r pethau sydd yn digwydd a'r pethau sydd i'w gweld yn newid bob mis, ac felly gallwn adnabod adeg y flwyddyn heb edrych ar y calendr.
Mae'r lluniau sy'n dilyn yn dangos rhywbeth sy'n perthyn i bob mis ond dydyn nhw **ddim** yn y drefn gywir e.e Llund 1 – **nid** ym mis Ionawr y byddwn ni'n gorwedd ar y traeth yn hanner noeth!

Ar ôl meddwl ac efallai trafod yn y dosbarth, ysgrifennwch enw'r mis cywir wrth ochr pob llun.

[Byddai gwneud hyn mewn pensil yn syniad da i ddechrau os ydych chi'n gweithio ar gopi papur ond gallwch newid eich atebion yn haws ar sgrîn cyfrifiadur. Dydy ffitio pob un i mewn ddim yn hawdd a gall mwy nag un ateb fod yn gywir weithiau]




Beth arall sydd yn digwydd bob mis?
Meddylwch yn arbennig am bethau sydd yn digwydd ym myd natur a chefn gwlad.


Cwblhewch y tabl trwy ysgrifennu brawddeg debyg am bob mis yn ei dro yn y drefn gywir. Mae dwy enghraifft yno yn barod.


Sylwch: mae angen i bob brawddeg ddechrau gyda **Ym mis** [Gallwch wneud llun eich


hun neu gael llun o storfa o fewn eich cyfrifiadur.]

1  Ym mis

2  Ym mis

3  Ym mis Mawrth mae'r ffermwyr yn brysur yn y caeau.


4  Ym mis Ebrill mae'r gwenoliaid yn cyrraedd.


5  Ym mis

6  Ym mis


7  Ym mis

8  Ym mis

9  Ym mis

10  Ym mis

11  Ym mis

12  Ym mis

Dyddiadur y Ditectif Blwyddyn.

Beth am gadw dyddiadur o'r newid sydd yn digwydd o fis i fis?

Gallwch nodi pob math o bethau sydd yn dangos sut mae'r flwyddyn yn symud ymlaen.
Gallwch gadw llygad ar agor am gliwiau ble bynnag rydych yn byw, yn y dref ac yn y wlad.

Dyma restr o'r MATH o beth fydd yn bwysig ond byddwch chi, fel pob ditectif da, yn sylwi ar lawer iawn mwy na hyn.

clywed

y gog (y gwcw)
peiriant torri lawnt am y tro cyntaf

gweld

draenogod (yn fyw neu yn farw ar y ffordd)
gwenoliaid yn casglu ar y gwifrau teliffon
ffermwyr yn torri gwair
defaid wedi eu cneifio
garddwyr yn sgubo dail
yr eira cyntaf ar y brynau

sylwi

ble mae'r haul yn codi ac yn machlud
pryd mae blodau gwahanol yn agor
pryd mae angen gwres yn y cartref

Oes gennych chi gamera?

Dyna i chi ffordd wych o gofnodi tystiolaeth ddiddorol.

Dim camera?

Ta waeth. Mae pob ditectif yn gorfod dysgu sut i wneud brasluniau a gallwch chi wneud yr un peth.

Ar ddiwedd y flwyddyn anfonwch eich dyddiadur at Gwaith Maes.
Mae'n bur bosibl y bydd gwobr neu ddwy i'r goreuon.